



# Adferiad yn dilyn pandemig y Coronafeirws: Gwasanaethau cyhoeddus digidol a thegwch rhwng y cenedlaethau

## Cyflwyniad

Ysgrifennwyd y papur hwn ym mis Gorffennaf 2020. Mae'n rhan o gyfres o chwe briffiad a gomisiynwyd gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd i lywio a herio strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ailadeiladu ac adfer yn dilyn pandemig y Coronafeirws.

Roedd y briffiadau'n canolbwyntio ar bynciau a ddewiswyd gan y Gweinidogion. Roeddent yn adeiladu ar [ein gwaith i gefnogi trafodaethau bord gron a alwyd ynghyd yn gynharach gan y Gweinidog](#) ac roeddent yn helpu i ffurfio a goleuo gwaith [Grŵp Arbenigol](#)<sup>1</sup> a gyfarfu â'r Gweinidog rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2020. Gwnaethom ysgrifennu casgliadau'r Grŵp a gyfrannodd at drafodaethau'r Cabinet am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael ag effeithiau economaidd a chymdeithasol y pandemig.

Mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar wasanaethau cyhoeddus digidol a thegwch rhwng y cenedlaethau. Mae'n ystyried:

- sut gall Cymru adeiladu ar y cyflymu o ran cyflenwi gwasanaethau ar-lein yn ystod y pandemig;
- rhoi mwy o gefnogaeth i gynhwysiant digidol; a

- hyrwyddo tegwch rhwng y cenedlaethau gan ganolbwyntio'n benodol ar blant a phobl ifanc fwyaf agored i niwed a difreintiedig.



## Negeseuon allweddol

- Mae'r cyflymu o ran cyflenwi ar-lein yn ystod y pandemig yn gyfle i bwysu a mesur yr hyn a weithiodd a'r hyn na weithiodd i lywio penderfyniadau polisi.
- Rhaid i'r camau i symud gwasanaethau cyhoeddus ar-lein fod yn rhan o drawsnewid ehangach o ddiwylliannau sefydliadol, prosesau mewnol a chydweithredu rhwng sefydliadau. Mae hyn yn galw am arweinyddiaeth wleidyddol a buddsoddiad mewn technoleg a sgiliau.

<sup>1</sup> Roedd y Grŵp Arbenigwyr yn cynnwys pedwar aelod sefydlog: Torsten Bell (Prif Weithredwr y Resolution Foundation), Rebecca Heaton (Pwyllgor newid hinsawdd y DU), Paul Johnson (Cyfarwyddwr y Sefydliad Astudiaethau Cyllid) a Miatta Fahnbullah (Prif Weithredwr y Sefydliad Economeg Newydd).

- Mae Cymru angen strategaeth cynhwysiant digidol sydd wedi'i theilwra i'r heriau y mae gwahanol grwpiau'n eu hwynebu, ac sy'n cydnabod y bydd angen i rai unigolion barhau i gael mynediad at wasanaethau wyneb yn wyneb o ansawdd uchel.
- Dylai cymorth y Llywodraeth ganolbwyntio ar y bobl sydd fwyaf agored i niwed a'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o effeithiau economaidd a chymdeithasol y pandemig; cydnabod bod oedran yn brocsi gwael ar gyfer bod yn agored i effeithiau COVID-19 a'r ymateb cymdeithasol.
- Dylai penderfyniadau ynghylch budd-daliadau cyffredinol sy'n seiliedig ar oedran archwilio effeithiau cost ac unrhyw effeithiau niweidiol posibl, a ffurfio rhan o asesiad ehangach o sut mae defnyddio pwerau treth a lles datganoledig.
- Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar, gofal plant ac ieuencid ynghyd â theuluoedd sy'n wynebu nifer o ffactorau risg.
- Mae angen ysgogi'r system addysg i gynnig darpariaeth barhaus, ddwys, wedi'i thargedu ar gyfer plant a phobl ifanc agored i niwed er mwyn eu galluogi i adennill y tir a gollwyd o ganlyniad i'r amharu ar addysg.
- Dylai'r Gweinidogion ystyried sut i gryfhau capasiti a gallu i ddarparu cymorth i bobl agored i niwed; canolbwyntio ar arweinyddiaeth, llywodraethu a chydlynu ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

## Gwasanaethau cyhoeddus digidol

Mae pandemig y Coronafeirws wedi cyflymu'r broses o ddarparu rhai gwasanaethau

cyhoeddus ar-lein. Mae'n bwysig gwreiddio ac adeiladu ar y newidiadau hyn drwy bwysu a mesur yr hyn a weithiodd a pham a defnyddio hyn fel sail i benderfyniadau polisi a chamau gweithredu yn y dyfodol.

Mae angen i ni ddeall effaith gwasanaethau cyhoeddus digidol ar ansawdd gofal, diogelwch cleifion, profiad cleifion a chanlyniadau clinigol, a bod yn glir ynghylch pa wasanaethau y gellir eu darparu ar-lein a pha rai na ellir eu darparu ar-lein. Nid yw gwasanaethau digidol yn briodol i gleifion agored i niwed y mae angen gofal cymhleth, amlddisgyblaethol arnynt, ond maen nhw'n ddefnyddiol ar gyfer darparu gwybodaeth gyhoeddus a gwneud taliadau. Pan fydd angen darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol wyneb yn wyneb, gall darpariaeth ddigidol wella prosesau mewnol drwy hwyluso rhannu data a threfnu ymweliadau cartref.

**Mae gan dechnoleg ddigidol botensial enfawr i drawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol, drwy gofnodion iechyd electronig, e-bresgripsiynu, cofnodion rhannu gofal, monitro o bell, a synwryddion cwmpiaadau.**

Mae harneisio potensial llawn technoleg ddigidol yn golygu mwy na dim ond symud gwasanaethau ar-lein. Rhaid iddo fod yn rhan o drawsnewid ehangach o ddiwylliannau sefydliadol, prosesau mewnol a chydweithredu rhwng sefydliadau. Mae angen i Weinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus fuddsoddi eu hamser yn yr agenda ehangach hon a darparu buddsoddiad digonol mewn technoleg a sgiliau.

## Llywodraeth leol

Gall defnyddio technoleg ddigidol mewn llywodraeth leol wella effeithlonrwydd drwy symleiddio prosesau mewnol, gwella caffael, hwyluso cydgynhyrchu a phersonoli gwasanaethau, helpu i ragweld yr angen i ymyrryd yn gynnar, a galluogi cydweithio ag asiantaethau eraill (Benton a Simon, 2016; CLIL, 2015). Mae'r cynghorau yng Nghymru yn cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau ar-lein (Downe a Taylor-Collins, 2019). Fodd bynnag, ystyrir bod rhai cynghorau wastad yn ceisio dal i fyny ac nid yw rhai uwch-reolwyr yn deall sut y gall technoleg ddigidol drawsnewid eu sefydliadau a'u gwasanaethau (Price et al., 2020a).

Mae'n bwysig bod cynghorau'n cydweithio i gyfuno adnoddau a datblygu llwyfannau ar y cyd yn hytrach nag 'ailddyfeisio'r olwyn'. Mae enghreifftiau o hyn yn cael ei wneud yn effeithiol yng Nghymru (ee System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru sy'n cefnogi'r gwaith o reoli achosion ym maes iechyd a gofal cymdeithasol (Care Works, dim dyddiad)). Ond mae potensial am fwy o gydweithio o'r math hwn.

## Iechyd a gofal cymdeithasol

Mae gan dechnoleg ddigidol botensial enfawr i drawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol, drwy gofnodion iechyd electronig, e-bresgripsiynu, cofnodion rhannu gofal, monitro o bell, a synwryddion cwympiadau. Yn hanesyddol, araf fu'r niferoedd i dderbyn hyn yng Nghymru, ond mae'r pandemig wedi cyflymu'r broses o fabwysiadu gwasanaethau 'digidol yn gyntaf', yn enwedig ym maes gofal sylfaenol.

Mae'r hyn sy'n rhwystro ac yn galluogi arloesi digidol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn dra hysbys. Mae'r rhwystrau'n cynnwys materion sy'n ymwneud â data a phreifatrwydd (IPC, 2020), anghydnawsedd â'r systemau presennol, a tharfu ar lifau gwaith clinigol cymhleth (Greenhalgh et al, 2017). Mae'r hyn sy'n ei alluogi yn cynnwys cyllid, hyfforddiant, cefnogaeth gan uwch-glinigwyr a rheolwyr,

ymgysylltu â defnyddwyr a gweithio rhyngasiantaethol (Maguire et al, 2018).

Mae'n hanfodol bod offer digidol yn rhan o ddull integredig a chyfannol o ymdrin â gofal, ac nad ydynt yn cael eu trin fel ychwanegiad dewisol at wasanaethau eraill sydd wedyn yn creu cymhlethdod ychwanegol (Wharton et al, 2019); ac yn cael eu dilyn yng ngoleuni'r dystiolaeth am eu rôl bosibl:

- Mae technoleg ddigidol yn adnodd defnyddiol ar gyfer gwella iechyd y boblogaeth. Fodd bynnag, mae'r nifer sy'n manteisio arni yn amrywio'n sylweddol rhwng grwpiau poblogaeth (Davies et al, 2019).
- Gall technoleg ddigidol helpu i reoli amrywiaeth o anhwylderau hirdymor; galluogi rhannu gwybodaeth am iechyd, cefnogi hunanofal; a hwyluso cyfathrebu a chydlynu rhwng timau amlddisgyblaethol.
- Gall brysbennu dros y ffôn ac ymgynghoriadau fideo leihau llwythau gwaith clinigol a gwella boddhad cleifion drwy leihau amseroedd aros (Castle-Clarke ac Imison, 2016; Newbould et al, 2017) ond nid ydynt yn gweithio ar gyfer pob cyflwr a phob claf (Greenhalgh et al, 2020), ac mae diffyg tystiolaeth bendant am yr effeithiau ar ganlyniadau clinigol, ansawdd a hygyrchedd (Lake et al, 2017).

## Cynhwysiant digidol

Cyn y pandemig, nid oedd un o bob deg o bobl 16 oed a hŷn yng Nghymru yn defnyddio'r rhyngwrwyd. Roedd y mwyafrif helaeth o'r rhain dros 65 oed. Grwpiau eraill mewn perygl penodol o gael eu hallgáu'n ddigidol oedd pobl anabl, tenantiaid tai cymdeithasol, pobl sy'n ddigartref, ac aelwydydd mewn ardaloedd difreintiedig (Llywodraeth Cymru, 2019a). Mae'n bwysig bod strategaeth cynhwysiant digidol Cymru yn cael ei theilwra i'r heriau sy'n

wynebu'r gwahanol grwpiau hyn ac yn mynd i'r afael â phedwar rhwystr allweddol:

1. **Cymhelliant** – Y rheswm a nodir amlaf am ddiffyg mynediad i'r rhyngwyd gartref yw nad oes ei angen (64%) (ONS, 2019). Bydd yn bwysig deall a yw ymddygiad ac agweddau cysylltiedig wedi newid yn ystod y pandemig, a sut.
2. **Seilwaith** – Mae mynediad at fand eang yn dal i fod yn broblem mewn rhai ardaloedd ond mae wedi gwella.
3. **Sgiliau** – Mae pontio'r bwlch digidol yn dibynnu ar arfogi'r rheini nad ydynt yn gweithredu ar-lein ar hyn o bryd gyda'r sgiliau i wneud hynny.
4. **Fforddiadwyedd** – Mae cost yn parhau i fod yn rhwystr sylweddol i rai aelwydydd, ac mae hyn yn debygol o gynyddu (o ran nifer a dwysedd) yng ngoleuni'r gostyngiad a ragwelir mewn safonau byw a achosir gan effeithiau economaidd yr argyfwng.

Ni fydd rhai pobl byth yn fodlon nac yn gallu defnyddio technoleg ddigidol ac mae llawer ohonynt ymhlith y rhai mwyaf dibynnol ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a thaliadau lles. Bydd angen iddyn nhw barhau i allu cael mynediad parhaus at wasanaethau wyneb yn wyneb o ansawdd uchel a/neu gyfryngwyr sy'n defnyddio'r gwasanaethau ar-lein ar eu rhan.

## Tegwch rhwng y cenedlaethau

Dylai cymorth y Llywodraeth ganolbwyntio ar y bobl sydd fwyaf agored i niwed a'r rhai sydd fwyaf mewn perygl. Mae rhai sylwebyddion yn awgrymu y gofynnwyd i bobl iau wneud 'aberth' i amddiffyn pobl hŷn rhag Covid-19 a bod nawr angen 'ad-daliad rhwng y cenedlaethau' (Social Market Foundation, 2020: 6). Fodd bynnag, mae oedran yn brocsi gwael ar gyfer bod yn agored i niwed. Mae pobl o bob oed mewn perygl o effeithiau economaidd a chymdeithasol y pandemig; a bydd pobl hŷn yn teimlo effeithiau'r newid i ddarpariaeth ddigidol, y tarfu ar ofal

iechyd arferol, a'r unigedd sy'n cael ei achosi gan y 'cyfyngiadau symud' o leiaf cymaint â phobl ifanc.

## Roedd pobl hŷn ymysg y grwpiau sydd fwyaf mewn perygl o ganlyniad i leihau gwasanaethau arferol ac iechyd meddwl a lles yn gwaethygu yn ystod y cyfyngiadau symud

Mae angen i ymatebion polisi i'r pandemig ystyried natur groestoriadol yr anfanteision a'r cyd-fuddiannau sydd gan bob cenedlaeth mewn Cymru ffyniannus, decach a gwyrddach.

Mae angen i Weinidogion ystyried sut i gryfhau capasiti a gallu lleol a chenedlaethol i ddarparu cymorth effeithiol i bob grŵp agored i niwed yng Nghymru. Er enghraifft, mae ymchwil ddiweddar gennym ni ac eraill wedi tynnu sylw at yr angen am well goruchwyliaeth, her a chefnogaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau yn lleol ac yn rhanbarthol er mwyn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer dioddefwyr trais rhywiol a cham-drin domestig (Swyddfa Archwilio Cymru, 2019; Price et al., 2020b). Mae perygl y bydd holli asiantaethau ac atebolrwydd rhwng gwahanol adrannau o fewn Llywodraeth Cymru, a rhwng llywodraeth leol, byrddau iechyd, ac asiantaethau lleol eraill, yn arwain at broblemau tebyg o ran cefnogi'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o ganlyniadau economaidd a chymdeithasol y pandemig.



## Pobl hŷn

Roedd pobl hŷn ymysg y grwpiau sydd fwyaf mewn perygl o ganlyniad i leihau gwasanaethau arferol ac iechyd meddwl a lles yn gwaethygu yn ystod y cyfyngiadau symud (Green et al., 2020: 5). Er enghraifft, gohiriwyd y gwaith o addasu tai, ac o ystyried yr amseroedd aros hir sydd eisoes yn bodoli ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, bydd hyn yn effeithio ar ansawdd bywyd llawer o bobl hŷn. Bydd mynd i'r afael â'r rhain a'r ôl-groniadau eraill yn helpu i atal cyflyrau iechyd rhag gwaethygu a chostio mwy i'w trin yn y tymor hir.

Mae llawer o bobl 50+ oed yn dal i weithio. Maen nhw'n cael eu gorgynrychioli mewn rolau gweithwyr allweddol ac mewn sectorau sy'n agored i ddirwasgiad (Busnes yn y Gymuned, 2020). Mae profiad blaenorol yn awgrymu y bydd y rhai sy'n colli eu swyddi yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i swydd arall ac maen nhw mewn perygl o ymdeol heb sicrwydd ariannol (Centre for Ageing Better, 2020). Efallai y bydd angen cymorth wedi'i dargedu i alluogi gweithwyr hŷn i ailhyfforddi ac ailsgilio, a gallai cyfleoedd i bobl â chyflyrau iechyd weithio'n hyblyg a chael cymorth yn y gweithle eu helpu i ddychwelyd i'r gwaith yn ddiogel. Gallai hawl i absenoldeb i ofalwyr helpu gofalwyr hŷn i aros yn economaidd weithgar (Busnes yn y Gymuned, 2020).

## Mae'r pandemig yn debygol o gael effaith niweidiol ar iechyd a datblygiad cynnar plant

Dylai penderfyniadau ynghylch dyfodol budd-daliadau cyffredinol sy'n seiliedig ar oedran fod yn rhan o asesiad ehangach o sut mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei phwerau gwario treth a lles i gyflawni ei hamcanion a chael eu gwreiddio mewn asesiad cadarn o'r arbedion a'r effeithiau niweidiol posibl.

Efallai y byddai'n well targedu neu leihau budd-daliadau sy'n seiliedig ar oedran yn hytrach na chael gwared arny'n nhw'n gyfan gwbl, a gallai ymgyrch effeithiol i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar Gredyd Pensiwn yng Nghymru helpu i liniaru'r effaith ar gost isel iawn i Lywodraeth Cymru.

Mae'r gwaith diweddar i ail-bwrpasu'r cynllun Nofio am Ddim yng Nghymru yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol. Mae cyllid ar gyfer nofio am ddim bellach wedi'i dargedu'n bennaf at bobl ifanc mewn cymunedau difreintiedig; cyn hynny roedd yn cael ei ddarparu ar gyfer pawb dan 16 oed a dros 60 oed. Roedd y cynghorau'n ofni'r ymateb gan bobl 60+ oed. Fodd bynnag, mae cyfuniad o sesiynau â chymhorthdal (yn hytrach nag am ddim) ar gyfer pobl dros 60 oed, yn ogystal ag eglurhad clir gan staff rheng flaen o'r rhesymau dros y newidiadau, yn golygu bod y rhan fwyaf o bobl hŷn wedi'i groesawu.

## Plant a phobl ifanc

Mae'n amlwg bod plant a phobl ifanc agored i niwed a difreintiedig mewn perygl penodol o effeithiau'r cyfyngiadau symud, gan gynnwys tarfu ar eu haddysg.

Bydd cau'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar i'r rhan fwyaf o blant wedi cael yr effaith fwyaf ar deuluoedd incwm isel y gallai eu hamgylchedd cartref fod yn llai addas ar gyfer dysgu. Er gwaethaf y gefnogaeth, mae pryderon ynghylch hyfywedd rhai darparwyr gofal plant, yn enwedig os ydy rhieni yn ofn anfon eu plant yn ôl (Montacute, 2020). Byddai lleihad yn y sector hwn yn achosi problemau sylweddol i rieni sy'n gweithio.

Mae'r pandemig yn debygol o gael effeithiau niweidiol ar iechyd a datblygiad cynnar plant, gydag oedi wrth geisio gofal ar gyfer salwch nad yw'n gysylltiedig â COVID-19, oedi wrth imiwneiddio neu fethu ag imiwneiddio o gwbl, a'r posibilrwydd o fethu canfod datblygiad araf a fyddai fel arfer yn cael ei nodi mewn archwiliadau iechyd arferol neu leoliadau blynyddoedd cynnar. Bydd angen strategaethau

lliniaru, gan gynnwys blaenoriaethu'r plant sydd fwyaf mewn perygl a darparu negeseuon iechyd priodol i'r cyhoedd er mwyn cefnogi teuluoedd i gael gafael ar y gwasanaethau angenrheidiol yn ddiogel yn ystod y cyfnod adfer (Chanchlani et al., 2020).



Mae ymyrraeth gynnar a gwasanaethau ieuentid wedi rhybuddio y gall plant a phobl ifanc agored i niwed fod yn 'diflannu oddi ar y radar' oherwydd diffyg cyswllt ag athrawon, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr ieuentid yn ystod y cyfyngiadau symud. Gallai darparu cyllid ychwanegol i grwpiau cymunedol lleol sydd â pherthynas gadarn yn barod â phlant a phobl ifanc helpu i liniaru'r risg hon.

Mae gwasanaethau ieuentid gwirfoddol yn chwarae rhan bwysig o ran cefnogi pobl ifanc ddiffreintiedig ond mae'r pandemig wedi effeithio'n ddrwg arnynt. Bydd cymorth ariannol parhaus i gadw gweithwyr medrus a sicrhau parhad gwasanaethau yn arbennig o bwysig i sefydliadau llai.

Mae cau ysgolion a cholegau wedi gwaethygu'r anghydraddoldebau addysgol presennol. Mae amcangyfrifon yn awgrymu y gallai hyn fod wedi gwrthdroi degawd o gynnydd o ran cau'r bwllch cyrhaeddiad (EEF, 2020a). Mae pryderon ynghylch ansawdd rhywfaint o'r addysgu o bell a'r lefelau gwahanol o fynediad ato (EEF, 2020b). Mae ymchwil yn Lloegr hefyd wedi dangos bod y ddarpariaeth yn amrywio yn ôl y math o ysgol gydag ysgolion preifat ac ysgolion gwladol mewn ardaloedd cefnog yn fwy tebygol o fod â llwyfan dysgu ar-lein yn barod ac yn rhoi

gliniaduron a thabledi i blant (Ymddiriedolaeth Sutton, 2020).

Bydd yn hanfodol cynnig cefnogaeth ddwys i'r rhai sydd wedi cael y cyfle lleiaf i fanteisio ar ddysgu ar-lein (Major a Machin, 2020). Mae'n golygu symud cyllid a staff yn sylweddol ac yn barhaus er mwyn cynnig darpariaeth dal i fyny i fyfyrwyr dan anfantais a fydd yn wynebu'r risg fwyaf o absenoldeb ar ôl i'r ysgolion ailagor (EEF, 2020c).

Fel y trafodwyd mewn cyfarfod blaenorol o'r Grŵp Arbenigwyr, mae'r bobl sy'n ymuno â'r farchnad lafur am y tro cyntaf yn wynebu heriau sylweddol a gallent fod mewn perygl o ddioddef effeithiau 'dwys' dros y tymor hir yn sgil diweithdra/tangyflogaeth.

Mae cyfle i ystyried dulliau newydd o ddarparu cymorth ariannol i bobl ifanc. Mae'r cynigion wedi cynnwys 'etifeddiant dinasyddion' ar ffurf grantiau tuag at gostau addysg, hyfforddiant, tai, cynilion hirdymor neu ddechrau busnes newydd (Bangham, 2018). Ond mae perygl y bydd mentrau Lles sy'n seiliedig ar Asedau (Bynner a Paxton, 2001) fel hyn o fudd anghymesur i bobl ifanc o gefndiroedd cefnog, fel y digwyddodd yn achos y cynllun Cymorth i Brynu ledled y DU (Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2019).

## Ffynonellau

Baird, B., Reeve, H., Ross, S., Honeyman, M., Nosa-Ehima, M., Sahib, B. ac Omojomolo, D. (2018).

**Innovative Models of General Practice.** Cyrchwyd o:

[https://www.kingsfund.org.uk/sites/default/files/2018-06/Innovative\\_models\\_GP\\_Kings\\_Fund\\_June\\_2018.pdf](https://www.kingsfund.org.uk/sites/default/files/2018-06/Innovative_models_GP_Kings_Fund_June_2018.pdf)

Bangham, G. (2018). **The new wealth of our nation: The case for a citizen's inheritance.**

Resolution Foundation. Cyrchwyd o:

<https://www.resolutionfoundation.org/publications/the-new-wealth-of-our-nation-the-case-for-a-citizens-inheritance-2/>

Banks, J., Farr, M., Salisbury, C., Bernard, E., Northstone, K., Edwards, H. a Horwood, J. (2018).

**Use of an electronic consultation system in primary care: a qualitative interview study.** British Journal of General Practice, 68(666). Cyrchwyd o: <https://bjgp.org/content/68/666/e1>

Benton, M. a Simon, J. (2016). **Connected councils: A digital vision of local government in 2025.** Cyrchwyd o: [https://media.nesta.org.uk/documents/connected\\_councils\\_report.pdf](https://media.nesta.org.uk/documents/connected_councils_report.pdf)

Bottrill, I. a Boyd, P. (2016). **Increasing the Use of School Facilities: Evidence from Wales: Case Studies.** Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru. Cyrchwyd o: <http://ppi.w.org.uk/files/2016/04/Increasing-the-Use-of-School-Facilities-Case-Studies.pdf>

Business in the Community. (2020). **COVID-19: economic impact on age in the workplace.** Cyrchwyd o: <https://www.bitc.org.uk/fact-sheet/covid-19-economic-impact-on-age-in-the-workplace/>

Bynner, J. a Paxton, W. (2001). **The asset-effect.** Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus. Care Works (dim dyddiad). WCCIS. Cyrchwyd o: <https://www.careworks.co.uk/portfolio-item/wccis#toggle-id-2>

Castle-Clarke, S. ac Imison, C. (2016). **The Digital Patient: transforming primary care.** Cyrchwyd o: <https://www.nuffieldtrust.org.uk/digital-patient>

Centre for Ageing Better. (2020). **Lockdown could leave next generation of retirees poorer and sicker than the last.** Cyrchwyd o: <https://www.ageing-better.org.uk/news/lockdown-could-leave-next-generation-retirees-poorer-and-sicker-last>

Chanchlani, N., Buchanan, F. a Gill, P. J. (2020). **Addressing the indirect effects of COVID-19 on the health of children and young people.** CMAJ. Cyrchwyd o: <https://doi.org/10.1503/cmaj.201008>

CWVYS. (2020). **Adroddiad CWVYS ar effaith Covid-19 ar y Sector Gwaith Ieuenctid Gwirfoddol yng Nghymru.** Cyrchwyd o: <https://www.cwvys.org.uk/cwvys-report-on-the-impact-of-covid-19/?lang=cy>

Davies, A., Sharp, C., Homolova, L. a Bellis, M. (2019). **Iechyd y boblogaeth mewn oes ddigidol: Y**

**defnydd o dechnoleg ddigidol i gefnogi a monitro iechyd yng Nghymru.** Cyrchwyd o: <https://icc.gig.cymru/files/research/iechyd-y-boblogaeth-mewn-oes-ddigidol/>

Yr Adran Addysg. (2019). **Essential digital skills framework.** Cyrchwyd o: <https://www.computerweekly.com/news/252485211/Enterprises-in-rural-Wales-to-gain-added-fibre-as-voucher-scheme-doubles-in-value>

Downe, J. a Taylor-Collins, E. (2019). **Wedi cyrraedd y pwynt tyngedfennol? Llywodraeth leol Cymru a chyni.** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Cyrchwyd o: <https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2019/06/190418-Austerity-Report-FINAL-Cymraeg-1.pdf>

Early Intervention Foundation. (2020). **Covid-19 and early intervention: Understanding the impact, preparing for recovery.** Cyrchwyd o: <https://www.eif.org.uk/report/covid-19-and-early-intervention-understanding-the-impact-preparing-for-recovery>

Sefydliad Gwaddol Addysgol (EEF). (2020a). **Best evidence on impact of school closures on the attainment gap.** Cyrchwyd o: <https://educationendowmentfoundation.org.uk/covid-19-resources/best-evidence-on-impact-of-school-closures-on-the-attainment-gap/>

Sefydliad Gwaddol Addysgol (EEF). (2020b) **Rapid evidence assessment: distance learning.** Cyrchwyd o: [https://educationendowmentfoundation.org.uk/public/files/Publications/Covid-19\\_Resources/Remote\\_learning\\_evidence\\_review/Remote\\_Learning\\_Rapid\\_Evidence\\_Assessment.pdf](https://educationendowmentfoundation.org.uk/public/files/Publications/Covid-19_Resources/Remote_learning_evidence_review/Remote_Learning_Rapid_Evidence_Assessment.pdf)

Sefydliad Gwaddol Addysgol (EEF). (2020c) **Rapid evidence assessment: school closures.** Cyrchwyd o: <https://educationendowmentfoundation.org.uk/evidence-summaries/evidence-reviews/school-closures-rapid-evidence-assessment/>

Green, L., Morgan, L., Azam, S., Evans, L., Parry-Williams, L., Petchey, L. a Bellis, M.A. (2020). **Asesiad o'r Effaith ar Iechyd y 'Polisi Aros Gartref a Chadw Pellter Cymdeithasol' yng Nghymru**

**mewn ymateb i bandemig COVID-19. Crynodeb**

**Gweithredol.** Cyrchwyd o:

<https://whiasu.publichealthnetwork.cymru/cy/news/he-alth-impact-assessment-staying-home-and-social-distancing-policy-wales-response-covid-19-pandemic-executive-summary/>

Greenhalgh, T., Wherton, J., Shaw, S. a Morrison, C. (2020). **Video consultations for Covid-19.** BMJ.

Cyrchwyd o:

<https://www.bmj.com/content/368/bmj.m998>

Hardill, I, a Sullivan, R. (2018). **E-government: Accessing public services online: Implications for citizenship.** Cyrchwyd o:

<https://journals.sagepub.com/doi/full/10.1177/0269094217753090>

Henderson, D., Jones, C., Munday, M., Norris, L., Roberts, A., Reynolds, L., Roche, N. a Xu, C. (2020).

**Arolwg aeddfedwydd digidol 2019.** Prifysgol

Caerdydd. Cyrchwyd o

<https://www.cardiff.ac.uk/cy/superfast-broadband-project/digital-maturity-survey>

Henehan, K. (2020). **Class of 2020: Education leavers in the current crisis.** Resolution

Foundation. Cyrchwyd o:

<https://www.resolutionfoundation.org/app/uploads/2020/05/Class-of-2020.pdf>

IFS. (2020). **Sector shutdowns during the coronavirus crisis: which workers are most exposed?** Cyrchwyd o:

<https://www.ifs.org.uk/publications/14791>

Institute for Student Employment. (2020). **COVID-19 challenges for student recruitment.** Cyrchwyd o:

<https://ise.org.uk/page/blog-covid-19-challenges-for-student-recruitment>

Institute of Public Care (IPC). (2020). **Adult Social Care Data and Cyber Security Programme 2019/20.** Cyrchwyd o:

[https://ipc.brookes.ac.uk/publications/ASC\\_Data\\_and\\_Cyber\\_Security\\_Programme\\_%202019-20%20final.pdf](https://ipc.brookes.ac.uk/publications/ASC_Data_and_Cyber_Security_Programme_%202019-20%20final.pdf)

JRF. (2020). **Webinar: Poverty in a Pandemic.**

Cyrchwyd o: <https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2020/06/Poverty-in-a-pandemic-webinar.pdf>

Lake, R., Georgiou, A., Li, J., Li, L., Byrne, M., Robinson, M. a Westbrook, J. (2017). **The Quality, Safety and Governance of Telephone Triage and Advice Services – An Overview of Evidence From Systematic Reviews.** BMC Health Services Research. 17 (1). Cyrchwyd o:

<https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/28854916/>

Cymdeithas Llywodraeth Leol. (2015). **Transforming local services through digital.** Cyrchwyd o:

<https://www.local.gov.uk/sites/default/files/documents/transforming-local-servic-3e8.pdf>

Maguire, D., Evans, H., Honeyman, M. ac

Omojomolo, D. (2018). **Digital change in health and social care.** Cyrchwyd o:

[https://www.kingsfund.org.uk/sites/default/files/2018-06/Digital\\_change\\_health\\_care\\_Kings\\_Fund\\_June\\_2\\_018.pdf](https://www.kingsfund.org.uk/sites/default/files/2018-06/Digital_change_health_care_Kings_Fund_June_2_018.pdf)

Major, L. E. a Machin, S. (2020). **Covid-19 and Social Mobility.** Cyrchwyd o:

<http://cep.lse.ac.uk/pubs/download/cepcovid-19-004.pdf>

Montacute, R. (2020). **Social Mobility and Covid-19: Implications of the Covid-19 crisis for educational inequality.** Cyrchwyd o:

<https://dera.ioe.ac.uk/35323/2/COVID-19-and-Social-Mobility-1.pdf>

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. (2019). **Cymorth i Brynu: Cynllun Benthyciad Ecwiti – adolygiad cynnydd.** Cyrchwyd o: <https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2019/06/Help-to-Buy-Equity-Loan-scheme-progress-review.pdf>

Nesom, S., Park, M. a Durrant, H. (2020).

**Unigrwydd yn ystod y cyfyngiadau ar symud.**

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Cyrchwyd o:

<https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2020/04/Unigrwydd-yn-ystod-y-Cyfyngiadau-ar-Symud.pdf>

Newbould, J., Abel, G., Ball, S., Corbett, J., Elliott, M., Exley, J., Martin, A., Saunders, C., Wilson, E., Winpenny, E., Yang, M. a Roland, M. (2017).

**Evaluation of telephone first approach to demand management in English general practice: observational study.** British Medical Journal.



Cyrchwyd o:

<https://www.bmj.com/content/358/bmj.j4197>

One Digital UK. (2020). **Digital inclusion: making digital accessible for everyone.** Cyrchwyd o:

<https://onedigitaluk.com/knowledge-hub/developing-a-digital-champion-project/digital-inclusion/>

ONS. (2019). **Exploring the UK's digital divide.**

Cyrchwyd o:

<https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/householdcharacteristics/homeinternetandsocialmediausage/articles/exploringtheuksdigitaldivide/2019-03-03-04?uri=peoplepopulationandcommunity/householdcharacteristics/homeinternetandsocialmediausage/articles/exploringtheuksdigitaldivide/2019-03-04>

<https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/householdcharacteristics/homeinternetandsocialmediausage/articles/exploringtheuksdigitaldivide/2019-03-04>

Price, J., Johnson, C., Tilley, H. a Martin, S.J.

(2020a) **Datblygu Arweinwyr yn y Sector Cyhoeddus.**

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Cyrchwyd o: <https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2020/09/Datblygu-arweinwyr-yn-y-sector-cyhoeddus.pdf>

<https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2020/09/Datblygu-arweinwyr-yn-y-sector-cyhoeddus.pdf>

Price, J., Quarmby, S., Johnson, C. a Bristow, D.

(2020b) **Ymyriadau ym maes cam-drin domestig yng Nghymru.**

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Cyrchwyd o: <https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2020/09/Ymyriadau-ym-maes-cam-drin-domestig-yng-Nghymru.pdf>

<https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2020/09/Ymyriadau-ym-maes-cam-drin-domestig-yng-Nghymru.pdf>

Resolution Foundation.(2020). **This time is different – Universal Credit's first recession.**

Cyrchwyd o:

<https://www.resolutionfoundation.org/publications/this-time-is-different-universal-credits-first-recession/>

Sefydliad y Farchnad Gymdeithasol. (2020).

**Intergenerational fairness in the coronavirus economy: Briefing paper.**

Cyrchwyd o:

<https://www.smf.co.uk/wp-content/uploads/2020/04/Intergenerational-fairness-in-the-coronavirus-economy.pdf>

Ymddiriedolaeth Sutton. (2020). **COVID-19 and Social Mobility Impact Brief #1: School Shutdown.**

Cyrchwyd o:

<https://www.suttontrust.com/wp-content/uploads/2020/04/COVID-19-Impact-Brief-School-Shutdown.pdf>

Uthmani, N. (2020). **How do we ensure fair grades for BAME students?** Cyrchwyd o:

<https://www.tes.com/news/how-do-we-ensure-fair-grades-bame-students>

Swyddfa Archwilio Cymru. (WAO) (2019). **Cynnydd o ran gweithredu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.**

Cyrchwyd o:

<http://www.audit.wales/publication/progress-implementing-violence-against-women-domestic-abuse-and-sexual-violence-act>

Llywodraeth Cymru. (2019a) **Arolwg Cenedlaethol Cymru, Defnydd o'r rhyngwyd a sgiliau digidol 2018-19.** Cyrchwyd o:

<https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-09/internet-use-and-digital-skills-national-survey-wales-april-2018-march-2019-207.pdf>

Llywodraeth Cymru. (2019b) **Cymru 4.0: Cyflawni Trawsnewidiad Economaidd ar gyfer Gwell Dyfodol Gwaith**

Cyrchwyd o:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-09/cyflawni-trawsnewidiad-economaidd-ar-gyfer-gwell-dyfodol-gwaith.pdf>

Llywodraeth Cymru. (2020a). **Datganiad ysgrifenedig: Y diweddaraf am Fand Eang yng Nghymru.**

Cyrchwyd o: <https://gov.wales/written-statement-update-broadband-wales>

<https://gov.wales/written-statement-update-broadband-wales>

Llywodraeth Cymru. (2020b) **Datganiad i'r Wasg: £3m o gyllid ychwanegol i gefnogi dysgwyr sydd wedi'u 'hallgáu o'r byd digidol' yng Nghymru.**

Cyrchwyd o: <https://llyw.cymru/3m-o-gyllid-ychwanegol-i-gefnogi-dysgwyr-sydd-weddiu-hallgau-or-byd-digidol>

<https://llyw.cymru/3m-o-gyllid-ychwanegol-i-gefnogi-dysgwyr-sydd-weddiu-hallgau-or-byd-digidol>

Wharton, G., Harpreet. S. a Sissons, A. (2020).

**Virtual primary care: fragmentation or integration?**

Cyrchwyd o:

[https://www.thelancet.com/journals/landig/article/PIIS2589-7500\(19\)30152-9/fulltext](https://www.thelancet.com/journals/landig/article/PIIS2589-7500(19)30152-9/fulltext)

Williams, E., St Denny, E., a Bristow, D. (2019).

**Cyllidebu Cyfranogol: Adolygu'r Dystiolaeth:**

Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru. Cyrchwyd o:

<http://ppi.w.org.uk/files/2017/08/PPIW-report-participatory-budgeting-evidence-review-July-2017-FINAL.pdf>

Young-Powell, A. (2019). **The challenge to ensure digital services leave no one behind.** Cyrchwyd o: <https://www.theguardian.com/society/2019/mar/05/challenge-ensure-digital-public-services-leave-no-one-behind>

## Manylion yr awduron

Steve Martin, Laura Bennett, Emma Taylor-Collins a Manon Roberts – Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

## Ein gwaith arall ar bandemig y Coronafeirws

Rydym wedi cynnal amrywiaeth o brosiectau i ddarparu tystiolaeth annibynnol i wneuthurwyr polisiâu a gwasanaethau cyhoeddus ar yr adferiad economaidd a chymdeithasol yn dilyn pandemig y Coronafeirws. Yn ogystal â phapurau a baratowyd ar gyfer y Grŵp Arbenigwyr a alwyd ynghyd gan Weinidogion Llywodraeth Cymru, rydym wedi arwain asesiad cynhwysfawr o'r dystiolaeth ar Gefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer cynllun Llywodraeth y DU ar 'Rebuilding a Resilient

Britain' dan arweiniad Syr Patrick Vallance; wedi cyhoeddi [casgliadau chwe bord gron arbenigol](#) ar adferiad yn dilyn y pandemig; wedi cyhoeddi dadansoddiad o [ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru](#) ar 'Ein Dyfodol'; ac wedi cynhyrchu [cyfres o flogiau](#) ar faterion allweddol, gan gynnwys [unigrwydd yn ystod y cyfyngiadau ar symud](#), y [goblygiadau i economi Cymru](#), [pwysigrwydd ysgogiad i'r economi werdd i gynorthwyo adferiad](#), a [dyfodol iechyd a gofal cymdeithasol](#).

## Ynglŷn â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y ganolfan, rydym yn cydweithio gydag arbenigwyr polisi blaenllaw er mwyn darparu tystiolaeth o ansawdd uchel a chyngor annibynnol i weinidogion, y Gwasanaeth Sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru sydd yn eu helpu i wella penderfyniadau polisi a deilliannau.

Mae'r ganolfan, sydd wedi ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol

a Llywodraeth Cymru, wedi ei lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n rhan o Rwydwaith yr Hyn sy'n Gweithio y DU.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â

**Yr Athro Steve Martin**

+44 0 29 2087 5202

[steve.martin@wcpp.org.uk](mailto:steve.martin@wcpp.org.uk)

### Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Prifysgol Caerdydd, 10/12 Plas yr Amgueddfa, Caerdydd, CF10 3BG



[www.wcpp.org.uk/cy](http://www.wcpp.org.uk/cy)



029 2087 5345



[info@wcpp.org.uk](mailto:info@wcpp.org.uk)



@WCfPP



Economic and Social Research Council



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government